



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

**Pecyn gwybodaeth i ymgeiswyr**

**Gofal Cymdeithasol Cymru**

**Penodi Aelod Bwrdd**

**Dyddiad cau: 4 Ionawr 2019**



Rheoleiddiwyd gan y  
Comisiynydd Penodiadau  
Cyhoeddus

# **Gofal Cymdeithasol Cymru**

**Cynnwys**

**Gwneud cais**

**Atodiad A: Rôl Cadeirydd / Aelod**

**Atodiad B: Rôl a chyfrifoldebau Gofal Cymdeithasol Cymru**

**Atodiad C: Y broses ddethol**

**Atodiad D: Matrics Asesu recriwtio i'r Bwrdd - sut y caiff ymgeiswyr eu hasesu**

**Atodiad E: Dyddiadau'r Bwrdd a'r Pwyllgor 2019-20**

## Gofal Cymdeithasol Cymru

### Gwneud cais

Diolch ichi am eich diddordeb mewn bod yn aelod o Fwrdd Gofal Cymdeithasol Cymru.

Dyma gyfle cyffrous i ddefnyddio'ch sgiliau a'ch profiad i wneud gwahaniaeth i'r sectorau gofal cymdeithasol a'r blynyddoedd cynnar yng Nghymru, i helpu i feithrin hyder yng ngweithlu'r sectorau hyn, i arwain a chefnogi gwelliant mewn gofal cymdeithasol ledled Cymru.

Mae gwybodaeth bellach am rôl a chylch gwaith Gofal Cymdeithasol Cymru i'w chael yma: [gofalcymdeithasol.cymru](http://gofalcymdeithasol.cymru)

Mae Gofal Cymdeithasol Cymru'n chwilio am aelod llewg o'r Bwrdd - mae hyn yn golygu na allwch wneud cais am y cyfle hwn os ydych yn y pum mlynedd diwethaf:

- wedi gweithio ym maes gofal cymdeithasol neu'r blynyddoedd cynnar; neu
- wedi cynrychioli gweithlu'r blynyddoedd cynnar a gofal cymdeithasol; neu
- wedi bod yn gyflogwr gweithwyr gofal cymdeithasol neu'r blynyddoedd cynnar.

Mae'r Atodiadau sydd ynghlwm yn rhoi manylion ynghylch rôl aelod a manyleb y person, rôl a chyfrifoldebau Gofal Cymdeithasol Cymru a'r broses ddethol.

I wneud cais, ewch i wefan penodiadau cyhoeddus Llywodraeth Cymru yma <https://cymru-wales.tal.net/vx/lang-en-GB/mobile-0/appcentre-3/brand-2/candidate/jobboard/vacancy/7/adv/>.

I wneud cais am y rôl hon, cliciwch ar swydd <https://cymru-wales.tal.net/vx/lang-cy/mobile-0/appcentre-3/brand-2/candidate/so/pm/1/pl/8/opp/5163-Appointment-of-Member-Social-Care-Wales/en-GB> ac yna cliciwch ar y botwm 'Gwneud cais' ar waelod y dudalen ar yr ochr chwith. Y tro cyntaf ichi wneud cais am swydd, bydd angen ichi lenwi ffurflen gofrestru ar gyfer system ceisiadau ar-lein Llywodraeth Cymru. Dim ond unwaith y mae angen ichi gofrestru, a thrwy wneud hynny byddwch yn gallu dilyn hynt eich cais, ac unrhyw geisiadau eraill rydych yn eu hanfon, trwy'ch cyfrif.

Ar ôl cofrestru, byddwch yn gallu cael gweld y ffurflen gais. I wneud cais, bydd angen i chi lanlwytho datganiad personol a CV i'r adran 'Rhesymau dros ymgeisio' o'r ffurflen ymgeisio ar-lein.

### Datganiad Personol

Byddwch cystal â chwblhau'r cwestiynau a gynhwysir yn y meini prawf hanfodol ar gyfer y swydd. Dylech ateb pob un o'r cwestiynau. Wrth ateb y cwestiynau ddylech anelu at ddarparu enghreifftiau manwl sy'n dangos eich gwybodaeth a'ch profiad ac sy'n disgrifio eich rôl chi wrth gyflawni canlyniad penodol. Dylech gofio hefyd y meini prawf hanfodol ar gyfer y swydd wrth baratoi'ch atebion; rhestrir yr holl feini prawf yn Atodiad B. Dylech ystyried yr wybodaeth a'r profiadau o bob agwedd ar eich bywyd ac nid o reidwydd y gweithle confensiynol.

## Gofal Cymdeithasol Cymru

Dylech gyfyngu'ch ymateb i bob cwestiwn i 250 gair yr un. Mae'n bosib y caiff eich cais ei wrthod os ydych yn mynd dros y terfyn hwn.

### CV

Eich CV yw'ch cyfle i amlinellu trosolwg byr o'ch rolau a'ch profiadau diweddar sy'n dangos sut y mae eich gwybodaeth, profiadau a sgiliau'n bodloni'r meini prawf **penodol i'r person** ar gyfer y rôl hon. Byddwch cystal â sicrhau bod eich CV yn cynnwys manylion bras eich rôl bresennol neu eich rôl ddiweddaraf, a'ch dyddiadau yn y rôl hon. Byddwch cystal â nodi unrhyw benodiadau Gweinidogol presennol neu flaenorol.

### Amserlen fras

Dyddiad cau: 4 Ionawr 2019  
Gweithdai: 6-8 Chwefror 2019  
Cyfweliadau: 20 a 25 Mawrth 2019

### Datganiad am Amrywiaeth

Mae Llywodraeth Cymru yn credu y dylai cyrff cyhoeddus gael aelodau bwrdd sy'n adlewyrchu'r gymdeithas yng Nghymru – pobl o bob cefndir – i'w helpu i ddeall anghenion pobl a gwneud penderfyniadau gwell. Dyna pam mae Llywodraeth Cymru yn annog ystod eang ac amrywiol o unigolion i ymgeisio am benodiadau i gyrrff cyhoeddus. Rydym yn croesawu'n arbennig geisiadau gan bob grŵp sydd heb gynrychiolaeth ddigonol gan gynnwys menywod, pobl dan 30 oed, pobl o gefndir du, Asiaidd ac o leiafrifoedd ethnig, pobl anabl a phobl lesbiaidd, hoyw, deurywiol a thrawsrywedol. Ar gyfer yr ymgyrch recriwtio benodol hon, câi ceisiadau gan ymgeiswyr pobl dduon ac Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig (BAME) eu croesawu'n arbennig.

### Cynllun Gwarantu Cyfweliad - Yn Gadarn o Blaid Pobl Anabl

Mae Llywodraeth Cymru yn gweithredu cynllun Cadarn o Blaid Pobl Anabl ac yn croesawu ceisiadau gan bobl sydd ag anabledau. Mae ein cynllun yn gwarantu cyfweliad i berson anabl os yw'n bodloni'r meini prawf gofynnol ar gyfer y swydd. Mae'r ffurflen gais hefyd yn eich galluogi i roi manylion unrhyw anghenion penodol neu offer y gallai fod arnoch ei angen os cewch eich gwahodd i gyfweliad.

### Enwau Cyswllt:

I gael rhagor o wybodaeth am y broses ddethol, cysylltwch â'r:

Penodiadau Cyhoeddus

Ffôn: 03000 61 6095

E-bost: [PublicAppointments@llyw.cymru](mailto:PublicAppointments@llyw.cymru)

I gael gwybodaeth bellach am rôl Aelod o'r Bwrdd ar gyfer Gofal Cymdeithasol Cymru cysylltwch â Llinos Bradbury, Ysgrifennydd y Bwrdd, Gofal Cymdeithasol Cymru:

Ffôn: 029 2078 0540

E-bost: [llinos.bradbury@socialcare.wales](mailto:llinos.bradbury@socialcare.wales)

Os oes angen mwy o gymorth arnoch i wneud cais, cysylltwch â'r Uned penodiadau Cyhoeddus ar 03000 616095 neu e-bost: [publicappointments@gov.wales](mailto:publicappointments@gov.wales)

## Gofal Cymdeithasol Cymru

I gael rhagor o wybodaeth am Benodiadau Cyhoeddus yng Nghymru, ewch i [www.llyw.cymru/penodiadaucyhoeddus](http://www.llyw.cymru/penodiadaucyhoeddus).

### Penodi Aelod i Fwrdd Gofal Cymdeithasol Cymru

Mae Bwrdd Gofal Cymdeithasol Cymru yn gyfrifol ar y cyd am sicrhau bod cyfeiriad strategol Gofal Cymdeithasol Cymru yn canolbwyntio ar nodau Llesiant Cymru, egwyddorion Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 a Deddf Rheoleiddio ac Arolygu (Cymru) 2016. Disgwylir i'r Bwrdd lynu at saith egwyddor bywyd cyhoeddus a dangos gwerthoedd arweinyddiaeth [Gwasanaeth Cyhoeddus Cymru](#).

Mae'r Bwrdd, trwy'r Cadeirydd, yn atebol i'r Gweinidog Plant, Pobl Hŷn a Gofal Cymdeithasol am berfformiad y Bwrdd a'i lywodraethiant effeithiol, gan gynnal gwerthoedd gwasanaeth cyhoeddus Cymru ac ennyn hyder y cyhoedd a phartneriaid ledled Cymru.

### Disgrifiad o'r rôl a manyleb y person

#### Rôl a chyfrifoldebau

Rhaid i'r Bwrdd sicrhau bod y nodau a'r amcanion a bennwyd gan Weinidogion Cymru yn cael eu bodloni. Rhaid i'r Bwrdd sicrhau bod y sefydliad yn cael ei redeg yn dda a'i fod yn atebol.

Fel Aelod byddwch:

- yn sicrhau bod Gofal Cymdeithasol Cymru'n gweithio yn unol â gweithdrefnau a pholisïau;
- yn sicrhau bod Gofal Cymdeithasol Cymru'n gwario arian yn dda ac yn y ffordd iawn;
- yn gwrando, yn gofyn cwestiynau, yn ymuno mewn trafodaethau ac yn cyfrannu at syniadau ynghylch yr hyn y bydd Gofal Cymdeithasol Cymru yn ei wneud yn y dyfodol a sut y gellir gwneud hyn;
- yn gwneud penderfyniadau fel rhan o'r Bwrdd a bod yn gyfrifol am y penderfyniadau hynny;
- yn gweithio gydag ymrwymiad a brwdfrydedd ag aelodau eraill o'r Bwrdd a staff Gofal Cymdeithasol Cymru; a
- yn cynrychioli Gofal Cymdeithasol Cymru gyda'i gwsmeriaid, sefydliadau eraill a chymunedau.

## Gofal Cymdeithasol Cymru

### Manyleb y Person

#### Meini Prawf Hanfodol

I fod yn Aelod Lleyg o Fwrdd Gofal Cymdeithasol Cymru rhaid ichi allu:

- ymrwymo i Gofal Cymdeithasol Cymru am ddau ddiwrnod y mis
- cydbwysu blaenoriaethau sy'n cystadlu;
- dangos brwdfrydedd ac ymrwymiad i wella gofal cymdeithasol yng Nghymru;
- deall materion gofal cymdeithasol yng Nghymru;
- gwneud penderfyniadau ac esbonio sut yr ydych wedi gwneud y penderfyniad hwnnw;
- gweithio gydag eraill mewn tîm, yn ogystal ag ar eich pen eich hun; a
- meddu ar sgiliau cyfathrebu da er mwyn cymryd rhan mewn cyfarfodydd a bod yn llysgennad ar gyfer Gofal Cymdeithasol Cymru

Mae gwerthoedd gwasanaeth cyhoeddus wrth wraidd y ffordd y mae Gofal Cymdeithasol Cymru'n gweithio. Fel aelod o fwrdd Gofal Cymdeithasol Cymru, bydd disgwyl ichi:

- weithio gyda phobl eraill i gyflawni amcanion cyffredin;
- dysgu o lwyddiannau a chamgymeriadau a defnyddio'r profiad a'r wybodaeth sydd gennych i sicrhau canlyniadau gwell;
- cadw agwedd realistig a chadarnhaol at heriau, anawsterau a newid a chefnogi eraill i wneud yr un peth; a
- cyfathrebu'n agored â phobl i ennyn eu hyder a'u hymddiriedaeth.

Er mwyn cael eich ystyried, rhaid ichi allu dangos bod gennych y priodoleddau, y sgiliau a'r profiad i fodloni pob un o'r meini prawf hanfodol ar gyfer cael eich penodi.

#### **Dylai hyn gael ei gynnwys gyda'ch CV**

#### **Felly, beth ddylai gael ei gynnwys yn eich datganiad personol?**

Yn ystod y broses recriwtio cewch eich asesu yn erbyn y matrices recriwtio yn atodiad D.

Mewn dim mwy na 250 o eiriau i bob cwestiwn atebwch;

- Disgrifiwch amser pan ydych wedi gweithio gydag eraill i gyflawni amcan cyffredin (ddim mwy na 250 o eiriau)
- Rhowch enghraifft o ddysgu naill ai o lwyddiant neu gamgymeriad a defnyddio'r profiad a'r wybodaeth i sicrhau gwell canlyniad (ddim mwy na 250 o eiriau);
- Esboniwch sut yr ydych wedi cadw agwedd gadarnhaol at heriau, anawsterau a newid a chefnogi eraill i wneud yr un peth (ddim mwy na 250 o eiriau)
- Rhowch enghraifft o orfod cyfathrebu'n agored â phobl i ennyn eu hyder a'u hymddiriedaeth (ddim mwy na 250 o eiriau)

## Gofal Cymdeithasol Cymru

### Y Gymraeg

Mae sgiliau iaith Gymraeg yn ddymunol ond nid yn ofynnol ar gyfer y penodiad hwn. Er hynny disgwylir i bob ymgeisydd ddangos arweiniad o ran cryfhau gweithlu dwyieithog ym maes gofal cymdeithasol a'r blynyddoedd cynnar. Bydd hefyd yn ofynnol i bob ymgeisydd ddangos pwysigrwydd y Gymraeg i Gofal Cymdeithasol Cymru fel cyflogwr yng Nghymru.

### Ffeithiau allweddol am y swydd

**Lleoliad:** yng Nghaerdydd yn bennaf y cynhelir yfarfodydd ond cynhelir cyfarfodydd mewn. Lleoliadau eraill yng Nghymru o bryd i'w gilydd.

**Ymrwymiad Amser:** 24 diwrnod y flwyddyn i / 2 ddiwrnod y mis (mae hyn yn cynnwys cyfarfodydd y Bwrdd, y Pwyllgor a chyfarfodydd rhanddeiliad).

**Hyd y swydd:** Penodiad cychwynnol o hyd at bedair blynedd i'w benderfynu gan y Gweinidog Plant, Pobl Hŷn a Gofal Cymdeithasol.

**Tâl cydnabyddiaeth:** £282 y dydd a gall aelodau hawlio teithio a chynhaliadaeth yn unol â chanllawiau Llywodraeth Cymru.

### Pwy sy'n cael gwneud cais

Dylai ymgeiswyr nodi hefyd fod aelodau Gofal Cymdeithasol Cymru yn cael eu hanghymhwyso rhag bod yn Aelod o Gynulliad Cenedlaethol Cymru, o dan Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Anghymhwyso) 2015.<http://www.legislation.gov.uk/uksi/2015/1536/contents/made>

### Gwrthdaro buddiannau

Bydd gofyn ichi ddatgan unrhyw fuddiannau preifat a allai fod, neu y gellid dehongli eu bod, yn gwrthdaro â'ch rôl a'ch cyfrifoldebau fel Aelod o Gofal Cymdeithasol Cymru, gan gynnwys buddiannau busnes neu swyddi o awdurdod y tu allan i'r rôl yn Gofal Cymdeithasol Cymru.

Bydd unrhyw achos o wrthdaro buddiannau yn cael ei drafod yn y cyfweiliad. Os cewch eich penodi, bydd disgwyl ichi hefyd ddatgan y buddiannau hyn ar gofrestr sydd ar gael i'r cyhoedd.

### Safonau mewn bywyd cyhoeddus

Bydd disgwyl ichi arfer safonau uchel o ran ymddygiad corfforaethol a phersonol. Gofynnir i bob ymgeisydd llwyddiannus gadw at God Ymarfer Aelodau Byrddau Cyrff Cyhoeddus, cewch weld y ddogfen hon ar:

[I weld y ddogfen honno, ewch i:](#)

<http://www.bl.uk/aboutus/governance/blboard/Board%20Code%20of%20Practice%202011.pdf>



## Gofal Cymdeithasol Cymru

### **Gwerthoedd Gwasanaeth Cyhoeddus Cymru**

Mae gennym set o werthoedd gwasanaeth cyhoeddus yng Nghymru sy'n pennu sut yr ydym yn gweithio, yn newid diwylliant ac yn llywio'r ffordd y mae pobl yng Ngwasanaeth Cyhoeddus Cymru'n ymddwyn:

<https://academiwales.gov.wales/Repository/resource/c1990615-e602-4e58-9d29-309d8b125f0b/en> .

### Rôl a chyfrifoldebau Gofal Cymdeithasol Cymru

#### Cefndir

Cafodd Gofal Cymdeithasol Cymru ei ailenwi o dan adran 67 o Ddeddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016, ar ôl cael ei sefydlu'n wreiddiol fel Cyngor Gofal Cymru o dan adran 54 o Ddeddf Safonau Gofal 2000. Fel corff cyhoeddus, ei brif rôl yw cyflawni ei gyfrifoldebau statudol a hynny yng nghyd-destun nodau strategol Llywodraeth Cymru.

Mae gan Gofal Cymdeithasol Cymru'r swyddogaethau statudol canlynol er mwyn hyrwyddo a chynnal:

- safonau uchel o ran darparu gwasanaethau gofal a chymorth;
- safonau uchel o ran ymddygiad ac ymarfer ymhlith gweithwyr gofal cymdeithasol;
- safonau uchel o ran hyfforddi gweithwyr gofal cymdeithasol, a;
- hyder y cyhoedd mewn gweithwyr gofal cymdeithasol.

Mae Gofal Cymdeithasol Cymru hefyd:

- Yn cadw ac yn cyhoeddi'r Gofrestr o weithwyr gofal cymdeithasol;
- Yn paratoi ac yn cyhoeddi codau ymarfer proffesiynol perthnasol;
- Yn rheoleiddio gwaith cymdeithasol a hyfforddiant gofal cymdeithasol;
- Yn gwneud rheolau i sicrhau darpariaeth ddigonol o ran addysg, hyfforddiant a dysgu;
- Yn datblygu cymwysterau a safonau galwedigaethol cenedlaethol; a
- Arwain a chefnogi'r gwaith o wella gwasanaethau.

Yn ogystal â:

- Casglu a dadansoddi data i lywio polisi a chynllunio ar lefel genedlaethol a rhanbarthol; a
- Dylanwadu ar flaenoriaethau ymchwil; a
- Ymgymryd â swyddogaethau'r Cyngor Sgiliau Sector - Sgiliau Gofal a Datblygu (SfCD) gan gynnwys gwybodaeth a chynllunio'r gweithlu.

I weld yr hyn a gyflawnodd Gofal Cymdeithasol Cymru yn ei flwyddyn gyntaf darllenwch ei [Adroddiad effaith 2017-18 Gwneud gwahaniaeth cadarnhaol i ofal cymdeithasol yng Nghymru <https://socialcare.wales/cms\\_assets/file-uploads/Impact-Report-2017-18\\_English.pdf>](https://socialcare.wales/cms_assets/file-uploads/Impact-Report-2017-18_English.pdf).

Mae gwybodaeth bellach am waith Gofal Cymdeithasol Cymru i'w chael yma: [www.gofalcymdeithasol.cymru](http://www.gofalcymdeithasol.cymru)

## Gofal Cymdeithasol Cymru

### Bwrdd Gofal Cymdeithasol Cymru

Mae Bwrdd Gofal Cymdeithasol Cymru yn cynnwys Cadeirydd a dim mwy na 14 o aelodau, y mae pob un ohonynt yn cael eu penodi gan Weinidogion Cymru. Lleygwyr sy'n arwain y Bwrdd sy'n golygu y bydd bob amser mwy o bobl sy'n defnyddio gwasanaethau, gofalmwr ac aelodau'r cyhoedd ar y Bwrdd na gweithwyr proffesiynol o'r sector gofal.

Mae angen i'r holl aelodau ymrwymo i sicrhau bod Gofal Cymdeithasol Cymru yn gweithio'n dda er mwyn i bobl sy'n gweithio ym maes gwaith cymdeithasol a gofal cymdeithasol feddu ar y sgiliau a'r hyfforddiant iawn.

Mae Bwrdd Gofal Cymdeithasol Cymru yn darparu arweiniad a chyfeiriad i'r sefydliad. Mae'r Bwrdd yn gneud hyn trwy bennu cynlluniau, cytuno ar sut a ble y caiff arian ei wario, a thrwy adolygu cynnydd gwaith Gofal Cymdeithasol Cymru a sut y mae'n cael ei gyflawni. Mae'r Bwrdd yn cydweithio'n agos â'r tîm rheoli gweithredol wrth gyflawni ei rôl.

Rhaid i'r Bwrdd sicrhau bod y nodau a'r amcanion a bennwyd gan Weinidogion Cymru yn cael eu bodloni. Rhaid i'r Bwrdd sicrhau bod y sefydliad yn cael ei redeg yn dda a'i fod yn atebol.

Mae aelodau'r Bwrdd:

- yn sicrhau bod Gofal Cymdeithasol Cymru'n gweithio yn unol â gweithdrefnau a pholisïau
- yn sicrhau bod Gofal Cymdeithasol Cymru'n gwario arian yn dda ac yn y ffordd iawn
- yn gwrando, yn gofyn cwestiynau, yn ymuno mewn trafodaethau ac yn cyfrannu at syniadau ynghylch yr hyn y bydd Gofal Cymdeithasol Cymru yn ei wneud yn y dyfodol a sut y gellir gwneud hyn
- yn gwneud penderfyniadau fel rhan o'r Bwrdd a bod yn gyfrifol am y penderfyniadau hynny
- yn gweithio gydag ymrwymiad a brwdfrydedd ag aelodau eraill o'r Bwrdd a staff Gofal Cymdeithasol Cymru
- yn cynrychioli Gofal Cymdeithasol Cymru gyda'i gwsmeriaid, sefydliadau eraill a chymunedau

### Pa gymorth a roddir i aelodau Bwrdd Gofal Cymdeithasol Cymru?

Mae ystod eang ac amrywiol o gymorth ar gael i aelodau'r Bwrdd i ddiwallu anghenion unigol. Mae hyn yn cynnwys ond ddim yn gyfyngedig i;

- cyflwyniad i waith y sefydliad;
- cyfleoedd ar gyfer dysgu a datblygu parhaus ac fel aelod unigol o'r Bwrdd a hefyd fel grŵp;
- Costau teithio a chynhaliaeth i ad-dalu costau a ysgwyddir fel Aelod o'r Bwrdd. Gallai hyn gynnwys llety dros nos, teithio, costau gofal, cynorthwywyr personol, pobl i gymryd nodiadau;
- Cadeirydd cefnogol a pherson cyswllt yn y sefydliad;

## **Gofal Cymdeithasol Cymru**

- offer electronig a hyfforddiant, yn ôl yr angen, a ddefnyddiwch i gael gafael ar wybodaeth am y Bwrdd, y Pwyllgor a'r Sefydliad. Darperir meddalwedd ychwanegol hefyd i gefnogi'r defnydd o'r dechnoleg hon; a
- Addasiadau rhesymol ei wneud er mwyn i'r aelodau allu cyflawni eu dyletswyddau'n effeithiol.

Bydd swyddogion o Gofal Cymdeithasol Cymru'n siarad â holl Aelodau'r Bwrdd yn unigol i nodi unrhyw ofynion penodol.

### Y broses ddethol

Caiff y panel dethol ei gadeirio gan Andrea Giordano, Dirprwy Gyfarwyddwr, yr Is-adran Gwasanaethau Cymdeithasol a Gwella, Llywodraeth Cymru a bydd hefyd yn cynnwys Arwel Elis Owen, Cadeirydd Gofal Cymdeithasol Cymru, Uzo Iwobi, Prif Swyddog Gweithredol, Race Council Cymru (a'r Aelod Annibynnol o'r Panel) a Fiona Santos, Arweinydd y Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant, Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili.

Mae'n bosibl y caiff eich cais ei roi ar "restr hir", gan ddibynnu faint o geisiadau fydd wedi dod i law, cyn ei drosglwyddo i'r panel rhestr fer iddynt ei ystyried. Dylech fod yn ymwybodol ei bod yn bosibl na fydd eich cais yn cael ei ystyried yn llawn gan bob aelod o'r panel mewn sefyllfa o'r fath.

Mae'r meini prawf y seilir y prawf arnynt ym mhob cam o'r broses ddethol i'w cael yn Atodiad D.

#### Sifftio ceisiadau

Bydd y panel dethol yn asesu CV a datganiadau personol yr ymgeiswyr i benderfynu pwy sy'n bodloni'r meini prawf ar gyfer y rôl orau, a phwy fydd yn cael gwahoddiad i'r gweithdy. Bydd y panel yn dibynnu ar yr wybodaeth a roddwch yn eich CV a'r datganiad personol i asesu a ydych yn meddu ar y sgiliau a'r profiad gofynnol. Byddwch cystal â sicrhau eich bod wedi ystyried y meini prawf yn atodiad A yn llawn ac ateb yr holl gwestiynau.

#### Gweithdy

Yn y gweithdy byddwch yn cymryd rhan mewn gweithgarwch grŵp a gweithgarwch unigol. Bydd y gweithgareddau hyn yn eich asesu yn erbyn y meini prawf yn y cais hwn a danlinellir yn Atodiad A.

Yn dilyn y gweithdy bydd y panel dethol yn penderfynu pwy gaiff wahoddiad i fynychu cyfweiliadau.

Yn anffodus, ni ellir cynnal y gweithdy i ymgeiswyr ar ddyddiad diweddarach. Os na allwch fod yn bresennol caiff eich cais ei roi o'r neilltu. Os bydd angen ail-amserlennu dyddiad y gweithdy byddwn yn ymdrechu i roi cymaint o rybudd ichi â phosibl. Cewch e-bost gan system recriwtio Penodi Llywodraeth Cymru i roi gwybod ichi a ydych wedi cael eich gwahodd i'r gweithdy a hefyd a ydych wedi cael eich gwahodd i gyfweiliad.

#### Cyfweiliad

Os cewch eich gwahodd i gyfweiliad, bydd y panel yn eich holi am eich sgiliau a'ch profiad, gan ofyn cwestiynau penodol i asesu a ydych yn bodloni'r meini prawf a bennwyd ar gyfer y swydd

## **Gofal Cymdeithasol Cymru**

Os na fyddwch yn gallu dod i'r cyfweiliad ar y diwrnod hwnnw, fe wnawn ein gorau i'w aildrefnu ond efallai na fydd hynny'n bosibl oherwydd cyfyngiadau'r amserlen ar gyfer penodi, neu argaeledd y panel dethol.

Bydd yr ymgeiswyr sy'n addas i'w penodi ym marn y panel yn cael eu hargymell i'r Gweinidogion, a fydd yn gwneud y penderfyniad terfynol. Gall y Gweinidog ddewis cyfarfod â'r ymgeiswyr hyn cyn gwneud penderfyniad. Os felly, bydd yn cyfarfod â'r holl ymgeiswyr ym mhresenoldeb cadeirydd y panel neu ei gynrychiolydd enwebedig. Bydd bwch amser rhwng y cyfweiliad a'r penderfyniad penodi terfynol. Bydd yr ymgeiswyr sydd wedi'u cyf-weld yn cael yr wybodaeth ddiweddaraf am y broses.

Os byddwch yn llwyddiannus, cewch lythyr yn eich penodi'n Aelod o Gofal Cymdeithasol Cymru, a bydd y llythyr hwnnw hefyd yn cadarnhau o dan ba amodau y caiff y penodiad ei gynnig ichi.

Os na fyddwch yn llwyddiannus yn y cyfweiliad, bydd Llywodraeth Cymru yn rhoi gwybod i chi. Rydym yn gwerthfawrogi ei bod yn cymryd amser ac ymdrech i wneud cais am rolau a bod adborth yn rhan werthfawr o'r broses. O ganlyniad, bydd y llythyr yn cynnwys manylion yr unigolyn y gallwch gysylltu ag ef i gael adborth ar eich cyfweiliad a'ch cais, os dymunwch wneud hynny.

Caiff pob ymgeisydd ei wahodd i gymryd rhan mewn arolwg byr, yn dilyn yr ymarfer recriwtio i ofyn eu barn am y broses ddethol i ddeall beth aeth yn dda a beth allai gael ei wneud yn wahanol yn y dyfodol.

### **Gwneud addasiadau rhesymol**

Fel rhan o'r llythyr canlyniad, caiff ymgeiswyr a ddewisir ar gyfer y gweithdy a/neu gyfweiliad eu gwahodd i roi manylion unrhyw anghenion ac addasiadau unigol y mae eu hangen i gefnogi eu cyfranogiad yn y gweithdy a/neu gyfweiliad. Bydd hyn yn cynnwys y dewis i gynnal ymweliad ymgyfarwyddo yn swyddfeydd Gofal Cymdeithasol Cymru.

### **Rheoleiddio gan y Comisiynydd Penodiadau Cyhoeddus**

Mae'r Comisiynydd yn rheoleiddio ac yn monitro penodiadau i gyrff cyhoeddus er mwyn sicrhau bod gweithdrefnau yn deg, yn agored ac yn dryloyw ac yn cael eu gwneud ar sail teilyngdod. Mae rhagor o wybodaeth am rôl y Comisiynydd a'i God Ymarfer ar gael o <http://publicappointmentscommissioner.independent.gov.uk/>

### **Os nad ydych yn hollol fodlon**

Nod Llywodraeth Cymru yw prosesu'r holl geisiadau mor gyflym â phosibl a thrin pob ymgeisydd yn gwrtais. Os oes gennych unrhyw gwynion am y ffordd y deliwyd â'ch cais, cysylltwch â Desg Gymorth y Ganolfan Cydwasanaethau Corfforaethol ar 03000 255454 neu anfonwch e-bost i [penodiadaucyhoeddus@llyw.cymru](mailto:penodiadaucyhoeddus@llyw.cymru).

Os ydych yn dal yn bryderus ar ôl derbyn ymateb cynhwysfawr gan Lywodraeth Cymru, gallwch ysgrifennu at y Comisiynydd Penodiadau Cyhoeddus yn y cyfeiriad isod. Cysylltwch â:

## Gofal Cymdeithasol Cymru

Y Comisiynydd Penodiadau Cyhoeddus  
1 Horse Guards Road  
Llundain  
SW1A 2HQ  
Ffôn: 0207 271 0849  
E-bost: [publicappointments@csc.gsi.gov.uk](mailto:publicappointments@csc.gsi.gov.uk)

**Mae fformatau hygyrch o'r pecyn hwn ar gael trwy wneud  
cais i Ganolfan Cydwasanaethau Llywodraeth Cymru**

## Gofal Cymdeithasol Cymru

### Matrics Asesu recriwtio i'r Bwrdd - sut y caiff ymgeiswyr eu hasesu

### Atodiad D

	Sifft- Ffurflen Gais	Gweithdy i ymgeiswyr - Gweithgarwch Grŵp	Gweithdy i ymgeiswyr - Gweithgarwch Unigolyn	Cyfweliad gan y Panel
<b>HANFODOL</b>				
Gallu ymrwymo i Gofal Cymdeithasol Cymru am ddau ddiwrnod y mis	X			
Cydbwysu blaenoriaethau sy'n cystadlu		X	X	X
Dangos brwdfrydedd ac ymrwymiad i wella gofal cymdeithasol yng Nghymru		X	X	X
Deall materion gofal cymdeithasol yng Nghymru	X	X	X	X
Gallu gwneud penderfyniadau ac esbonio sut yr ydych wedi gwneud y penderfyniad hwnnw		X	X	
Gallu gweithio gydag eraill mewn tîm, yn ogystal ag ar eich pen eich hun;		X	X	
Meddu ar sgiliau cyfathrebu da er mwyn cymryd rhan mewn cyfarfodydd a bod yn llysgennad ar gyfer Gofal Cymdeithasol Cymru		X	X	
Dangos profiad o werthoedd gwasanaeth cyhoeddus;	X			X



## Gofal Cymdeithasol Cymru

	Sifft- Ffurflen Gais	Gweithdy i ymgeiswyr - Gweithgarwch Grŵp	Gweithdy i ymgeiswyr - Gweithgarwch Unigolyn	Cyfweiliad gan y Panel
<ul style="list-style-type: none"> <li>• gweithio gyda phobl eraill i gyflawni amcan cyffredin;</li> <li>• dysgu o gamgymeriadau a llwyddiannau a defnyddio'r profiad a'r wybodaeth honno i sicrhau canlyniadau gwell</li> <li>• cadw agwedd realistig a chadarnhaol at heriau, anawsterau a newid a chefnogi eraill i wneud yr un peth; ac</li> <li>• cyfathrebu'n agored â phobl i ennyn eu hyder a'u hymddiriedaeth.</li> </ul>				
<b>DYMUNOL</b>				
Siarad Cymraeg	X	X	X	X
Dangos ymwybyddiaeth o broffil ieithyddol Cymru a chefnogi pob ymgais i gydymffurfio â Safonau arfaethedig y Gymraeg		X	X	
Deall cymunedau amrywiol Cymru ac ymrwymiad i hyrwyddo amrywiaeth.		X		X

**Dyddiadau Bwrdd a Phwyllgor Gofal Cymdeithasol Cymru 2019-20**

**Datblygu'r Bwrdd / seminar a chyfarfodydd:**

17 a 8 Gorffennaf 2019  
18 a 19 Medi 2019  
23 a 24 Hydref 2019  
11 a 12 Rhagfyr 2019  
29 a 30 Ionawr 30  
29 a 30 Ebrill 2020

**Pwyllgor Archwilio a Risg**

26 Medi 2019  
21 Tachwedd 2019  
13 Chwefror 2019

**Pwyllgor Gwella**

25 Medi 2019  
20 Tachwedd 2019  
12 Chwefror 2020

**Pwyllgor Rheoleiddio a Safonau**

26 Medi 2019  
21 Tachwedd 2019  
13 Chwefror 2019

**Pwyllgor Tâl Cydnabyddiaeth a Llesiant**

24 Hydref 2019  
30 Ionawr 2020  
30 Ebrill 2020